YSGOL CALON CYMRU

**The School at the Heart of Wales**

Annwyl Rieni a Gofalwyr

Fel yr addewais yn fy llythyr ar ddydd Iau, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch diweddaru am ein cynnydd gyda datblygiad parhaol darpariaeth dysgu o bell Ysgol Calon Cymru. Er mwyn bodloni anghenion llawer o'n disgyblion sy'n dysgu yn y cartref, datblygwyd yn gyson darpariaeth dysgu o bell yr ysgol, ac fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella ein darpariaeth. Fel bob amser, diolch am yr adborth sy'n ein helpu i ffurfio'r hyn a wnawn wrth i ni symud yn ein blaenau.

Gwn fod llawer ohonoch eisoes wedi gweld cyfathrebiadau'r wythnos ddiwethaf, a bod ein dull nawr yn glir i chi, eich mab/merch. Rydym nawr wedi cyhoeddi tudalen we un pwrpas gyda manylion ble y gall pob grŵp blwyddyn ddod o hyd i'w gwaith, a sut y medrwch gysylltu ag athrawon i ofyn cwestiynau, cyflwyno gwaith gorffenedig a derbyn adborth. Mae'r dudalen hefyd yn cynnwys fideo sy'n dangos i chi sut i ddod o hyd i e-bost a TEAMS ar Hwb, a gwaith ar y wefan. Ar gyfer y ddolen i'r dudalen we hon, gwiriwch adran newyddion gwefan yr ysgol (www.ysgolcalon.cymru/news) neu dudalen Facebook Ysgol Calon Cymru (www.facebook.com/ysgolcaloncymru).

Fel y dywedwyd yn y canllaw hwn, gellir cael gwaith ar gyfer pob grŵp blwyddyn ar wefan yr ysgol ar y dudalen ar gyfer pob grŵp blwyddyn (ceir y gwaith i Flwyddyn 12 ar dudalen y Chweched Dosbarth).

- Ar gyfer Blynyddoedd 7, 8 a 9, y gwaith ar y wefan yw'r gwaith ar gyfer y tymor haf cyfan, ac mae'n cynnwys amrywiaeth o dasgau a phrojectau. Mae rhai yn strwythuredig iawn, mae rhai yn fwy penagored. Fe'u dyluniwyd i annog dysgu annibynnol, ymholiad a chywreinrwydd.
- Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10, ychwanegir gwaith newydd bob dydd Mawrth, gyda hanner y pynciau'n ychwanegu gwaith ar ddydd Mawrth Wythnos 1, a'r hanner arall ar ddydd Mawrth Wythnos 2. Byddant yn ychwanegu digon o waith am bythefnos. Mae hyn er mwyn rhoi rhyddid i ddysgwyr gynllunio a rheoli eu dysgu yn y modd sydd fwyaf addas iddynt.
- Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12, bydd pynciau'n ychwanegu gwaith newydd naill ai unwaith yr wythnos neu bob pythefnos, yn dibynnu ar anghenion pob grŵp addysgu a phwnc.

Fel rhan o'n darpariaeth dysgu o bell, bydd athrawon hefyd yn cynnal sesiynau ar Microsoft TEAMS er mwyn rhoi cymorth a chefnogaeth gyda gwaith disgyblion. Mae wedi bod yn galonogol tu hwnt gweld bod cymaint o'n disgyblion eisoes yn cyrchu ein meddygfeydd dysgu trwy TEAMS er mwyn trafod y gwaith a gynhyrchwyd ganddynt o bell yn ystod y cyfnod clo ac yn cael adborth.

Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i Ysgol Calon Cymru ar ddiwedd y mis ac ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, bydd rhaid i ni barhau gyda chyfuniad deallus o ddysgu yn yr ysgol a dysgu o bell er mwyn cynnal y mesurau ymbellhau cymdeithasol fydd yn debyg iawn o fod yn weithredol am y dyfodol agos. Mae'n bwysig bod darpariaeth dysgu o bell yn parhau i ddatblygu a thyfu, wrth i ni anelu at roi i'r disgyblion y profiad dysgu cyfoethog y maent yn ei haeddu ac yn ei ddisgwyl. Fel y pwysleisiais eisoes, rwyf i a fy nghydweithwyr yn credu'n gryf na ddylai'r un plentyn fod dan anfantais oherwydd argyfwng sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, ac rydym yn gwneud popeth yn ein gallu i sicrhau nad dyma'r canlyniad i unrhyw un o ddisgyblion Ysgol Calon Cymru.

Yn gywir,

Richard Jones

Richard Jones

Pennaeth, Ysgol Calon Cymru